




Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER

Cosbi a Diwygio: Gwasanaethau Prawf Effeithiol

Crynodeb o ymatebion yr
ymgyngoriad

Cyhoeddir y crynodeb hwn ar 9 Ionawr 2013





**Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER**

**Cosbi a Diwygio:
Gwasanaethau Prawf Effeithiol**
Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad

**Mae'r wybodaeth hon ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd:
www.justice.gov.uk**

Cynnwys

Cefndir	3
Trosolwg	4
Crynodeb	5

Cefndir

Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol a ddaeth i'r golwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad *Cosbi a Diwygio: Gwasanaethau Prawf Effeithiol*. Rydym wedi ystyried yr ymatebion wrth ffurfio'r cynigion polisi a nodir yn *Gweddnewid Ailsefydlu: chwyldro yn y ffordd yr ydym yn rheoli troseddwr*, a gyhoeddwyd fel dogfen ymgynghori ar 9 Ionawr 2013.

Derbyniwyd cyfanswm o dros 280 o ymatebion gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys pob un o'r 35 Ymddiriedolaeth Prawf ac aelodau unigol o staff a'r undebau, mudiadau'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol (VCS) a'r sector preifat, dedfrydwyr, asiantaethau statudol lleol megis yr heddlu ac awdurdodau lleol, a rhai gan aelodau'r cyhoedd, academyddion ac aelodau seneddol.

Trosolwg

Rheoli troseddwy'r yn effeithiol a chystadleuaeth

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol gan ymatebwyr ar gyfer y cynigion allweddol o ran agor gwasanaethau i gystadleuaeth, er nad oedd staff ymddiriedolaethau prawf a'r undebau'n gefnogol yn gyffredinol. Mynegwyd pryder am y bwriad i wahanu rheolaeth troseddwy'r risg isel oddi wrth rhai risg uchel, oherwydd y gall lefelau risg newid. Rydym wedi ystyried y pryderon ynghylch rheoli risg ac wedi creu mecanwaith sy'n cydnabod natur ddeinamig risg wrth ddatblygu'r cynigion a nodir yn *Gweddnewid Ailsefydlu*.

Comisiynu Effeithiol

Roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer datganoli cyfrifoldeb comisiynu a chyllidebau i Ymddiriedolaethau, er bod rhai ymatebwyr yn cefnogi dull gweithredu mwy cenedlaethol, a allai barhau i fod yn ymatebol i anghenion lleol. Tynnodd llawer o ymatebwyr hefyd sylw at yr angen i adeiladu capasiti a gallu i alluogi Ymddiriedolaethau i gyflawni'r swyddogaeth hon. Rydym wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r cydbwysedd rhwng comisiynu gwasanaethau ar lefelau lleol a chenedlaethol ac mae *Gweddnewid Ailsefydlu* yn nodi cynnig sydd yn ein barn ni yn fwy effeithiol ac a fydd yn symlach i'w roi ar waith.

Darpariaeth fwy amrywiol a safonau proffesiynol

Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu'r cyfleoedd yn y cynigion ar gyfer y sectorau preifat, gwirfoddol a chymunedol, ond yn gwneud achos dros hwyluso mynediad i'r grŵp olaf yn benodol yn y system newydd o gyflwyno. Roedd cefnogaeth gyffredinol i set gyffredin o safonau proffesiynol ar gyfer gweithwyr prawf proffesiynol ar draws pob sector yn y model i'r dyfodol.

Cryfhau cyflwyno'n lleol

Roedd cefnogaeth eang i bartneriaethau lleol, sydd eisoes yn gadarn, rhwng Ymddiriedolaethau, yr heddlu ac awdurdodau lleol. Teimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr na ddylid gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch rhoi cyfrifoldeb comisiynu i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCC) hyd nes y byddant wedi dod yn fwy sefydlog.

Crynodeb

Rheoli troseddwr yn effeithiol a chystadleuaeth (cwestiynau 1–4)

Roedd **Ymddiriedolaethau Prawf** yn bryderus bod y bwriad i wahanu rheolaeth troseddwr ar sail risg yn methu â chydabod natur ddeinamig risg. Roeddnt yn bryderus ynghylch y diffyg dilyniant a fyddai'n digwydd i droseddwr yn yr amgylchiadau hyn a'r cymhlethdod a'r fiwrocratiaeth ychwanegol fyddai'n cael eu cyflwyno oherwydd yr angen am fwy o gyfnewid gwybodaeth a'r oedi a'r risgiau i ddiogelwch y cyhoedd a allai ddigwydd pe na byddai systemau wedi'u hintegreiddio'n dda. Pwysleisiodd llawer o'r Ymddiriedolaethau bwysigrwydd dilyniant o ran rheoli troseddwr i sicrhau perthynas effeithiol rhwng y troseddwr a'r rheolwr troseddwr a'r trafferthion a allai godi pe na fyddai hyn yn cael ei gynnal. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd pwynt cyswllt clir ar gyfer y llysoedd, yr heddlu ac asiantaethau eraill. Gwnaeth ymatebwyr sylw hefyd nad yw'r lefel o risg yr asesir bod troseddwr yn ei beri bob amser yn ddangosydd o ran y duedd i aildroseddu, na difrifoldeb y trosedd a gyflawnir. Cododd rhai bryderon ynghylch y ffaith bod y meini prawf ar gyfer trosglwyddo rhwng darparwyr yn creu cymhellion gwrthnysig, yn benodol y gwrthdaro rhwng buddiannau ar gyfer asiantaethau rhwng cyflawni targedau a chynnig newid o ran statws risg.

Er bod y rhan fwyaf o Ymddiriedolaethau'n argymhell mai'r ffordd orau o gyflwyno rheoli troseddwr oedd o fewn y sector cyhoeddus, cydnabu nifer bod potensial i agor cystadleuaeth yn y maes hwn ar yr amod bod holl reolaeth troseddwr yn mynd dan gystadleuaeth. Awgrymodd un Ymddiriedolaeth ddull gweithredu cam wrth gam gyda gwahanol elfennau o'r gwaith a wneir gyda throseddwr yn cael eu cwblhau dros amser. Awgrymodd Ymddiriedolaeth arall y gallai gwasanaeth integredig, aml-ddarparwr wedi'i lleoli ar y cyd gyflwyno rheolaeth troseddwr (OM), gan roi trwyddedau risg is ar gystadleuaeth yn y 2-3 blynedd nesaf, gyda'r arweiniad cyffredinol yn gorwedd gyda gwasanaeth prawf y sector cyhoeddus ond yn cael eu rhoi ar gystadleuaeth yn y tymor canolig-hir ynghyd â rheolaeth troseddwr risg uwch unwaith y byddai'r model wedi cael ei werthuso.

Roedd ymatebion gan undebau ac aelodau unigol o staff yn gyffredinol yn gwrthwynebu'r polisi o agor rheolaeth troseddwr i gystadleuaeth ac yn credu y dylai hyn fod yn swyddogaeth a ddarperir yn uniongyrchol gan weision cyhoeddus. Yr oeddynt yn dadlau y dylai unrhyw ymyriadau risg isel, maint uchel a roddir ar gontract fod dan oruchwyliaeth uniongyrchol cyrff y sector cyhoeddus yn cael eu gyrru gan ethos sy'n cefnogi'n llwyr amddiffyn y cyhoedd ac ailsefydlu troseddwr. Roedd ymatebion yn pwysleisio y dylai asesu risg ar gyfer pob troseddwr gael ei wneud gan rywun â'r sgiliau priodol i wneud hynny.

Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol bod y cynigion yn darparu cyfleoedd sylweddol i lawer o fudiadau'r **Sector Gwirfoddol a Chymunedol (VCS)**. Fodd bynnag, byddai angen gwneud diwygiadau cyn gynted â phosibl o

ystyried y trafferthion i lawer o fudiadau'r sector gwirfoddol a chymunedol gynnal eu hunain, yn enwedig y rhai sydd eisoes wedi buddsoddi mewn cyflwyno ceisiadau i ddarparu gwasanaethau.

Roedd lefelau cymysg o frwdfrydedd ymysg VCS o ran rhoi rheolaeth troseddwy'r dan gystadleuaeth, er bod pob un yn cytuno y dylai darparu cyngor i'r llys gael ei gadw o fewn y sector cyhoeddus. Roedd darparwyr posibl yn tueddu i fod ymysg y rhai oedd fwyaf o blaid cystadleuaeth. Roedd pryderon niferus ynghylch sut y byddai troseddwy'r yn cael eu rheoli, gan ystyried bod risg yn ddeinamig. Roedd atebolrwydd yn thema gref a theimlai llawer o gyrrff VCS nad oedd digon o sylw yn cael ei roi i hyn yn y ddogfen ymgynghori. Thema allweddol arall oedd y dylai darpariaeth gwasanaeth fod yn gyson. Roedd y rhai a oedd o blaid cystadleuaeth yn holi paham y dylai rheoli troseddwy'r risg uchel gael ei gadw yn y sector cyhoeddus, gan fod VCS eisoes yn gwneud peth gwaith gyda throseddwy'r risg uchel.

Ymysg ymatebwyr yn y **sector preifat**, roedd cefnogaeth gyffredinol i roi rheoli troseddwy'r dan gystadleuaeth, er bod rhai sylwadau mai'r peth gorau fyddai cadw hyn yn y sector cyhoeddus. Roedd pryderon ynghylch segmentu rheolaeth troseddwy'r yn gyffredin iawn. Roedd pryderon y gallai hyn rannu'r system. Trafodwyd yr effaith bosibl ar ddiogelwch y cyhoedd a hyder dedfrydwy'r, a gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut y byddai natur ddeinamig risg yn cael ei rheoli. Yn gyffredinol yr oedd yn well gan bobl i holl rheolaeth troseddwy'r gael ei roi dan gystadleuaeth, neu fel arall gadw'r cyfan yn hytrach na gwahanu.

Yr oedd yn well gan bobl integreiddio ystod llawn gweithgaredd prawf dan gontractau rhanbarthol gan y byddai hynny'n gynnig mwy deniadol i'r farchnad, yn creu arloesedd a gwerth am arian, a byddai hefyd yn hwyluso talu yn ôl canlyniadau. Codwyd hefyd y potensial i gysylltu cystadlaethau ar gyfer carchardai a phrawf fel un pecyn mewn ardaloedd rhanbarthol.

Roedd diddordeb yr **Heddlu** yn bennaf yn ymwneud â sicrhau nad oedd y cynigion i gystadlu rheolaeth troseddwy'r yn tanseilio trefniadau Rheoli Troseddwy'r yn Integredig (IOM) yn lleol, a rheolaeth effeithiol ar droseddwy'r problematig a mynych. Codwyd pryderon y gallai'r heddlu orfod derbyn rhai agweddau o ran gorfodaeth a chydymffurfio OM pryd y gallai darparwr ar gystadleuaeth dynnu'n ôl o'i ymdrechion gyda throseddwr a oedd wedi aildroseddu ac felly wedi methu â chwrdd â'r mesur llwyddiant deul mewn cytundeb talu yn ôl canlyniadau. Roedd yr heddlu'n bryderus y gallai darparwyr ar gystadleuaeth fod â llai o gymhelliad i weithio gyda throseddwy'r anstatudol sydd yn aml yn grŵp blaenoriaeth dan gynlluniau IOM.

Yr oedd **Awdurdodau Lleol** yn canolbwyntio mwy ar egwyddorion comisiynu rheolaeth troseddwy'r nac ar wahanu troseddwy'r risg uchel ac isel. Roeddynt yn cwestiynu a fyddai modd i ddarparwr newydd gystadlu gan gyrraedd y safonau a ddarperid ar hyn o bryd gan y gwasanaeth prawf. Roeddynt yn awyddus i nodi cymhlethdod y gwaith a'r lefel uchel o arbenigedd oedd ei angen i ymdrin ag ef. Nodwyd nad oedd rheoli troseddwy'r o angenrheidrwydd yn gydnaws â thargedau gwneud elw'r sector preifat. Roeddent yn awyddus i gael y fargen orau i droseddwy'r fod yn flaenoriaeth yn hytrach na'r

gwasanaeth rhataf ar gael ac awgrymodd un y gallai fod angen rheoleiddio ar yr un llinellau ag OFSTED.

Cyfeiriodd rhai awdurdodau lleol at bartneriaethau llwyddiannus a gwaith amlasiantaethol gan gynnwys IOM a oedd eisoes yn eu lle, gan bwysleisio'r angen i barhau i gydweddu ffiniau prawf â gwasanaethau eraill i sicrhau bod y partneriaethau hyn yn parhau i ddatblygu a ffynnu. Awgrymodd un bod y Gyllideb Gymunedol yn cyflwyno model o'r modd y gellid sicrhau trefniadau comisiynu integredig cryfach ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

Comisiynu Effeithiol (cwestiynau 5–8)

Roedd **Ymddiriedolaethau Prawf** yn croesawu'r bwriad i ddatganoli comisiynu gan bwysleisio eu bod eisoes yn comisiynu a chyd-gomisiynu gwasanaethau er bod cydnabyddiaeth y gallai hyn fynd ymhellach. Teimlai'r rhan fwyaf mai dim ond ar gyfer rhai gwasanaethau y byddai comisiynu cenedlaethol yn briodol, lle yr oedd darbodion maint yn gwrthbwysio ystyriaethau eraill ac y gellid dangos darpariaeth leol effeithiol. Monitro Electronig oedd yr enghraifft a godai dro ar ôl tro yn y cyd-destun hwn gyda gwasanaethau eraill a oedd yn cael eu darparu ar sail genedlaethol ar hyn o bryd, yn benodol TGCh, ystadau a rheoli cyfleusterau yn cael eu beirniadu am fod yn brin o unrhyw gyfle ar gyfer hyblygrwydd lleol. Roedd rhai Ymddiriedolaethau'n ystyried ffurfio consortia i gomisiynu rhai gwasanaethau lle yr oedd angen darbodion maint. Roedd y rhan fwyaf o Ymddiriedolaethau'n cydnabod y byddai angen iddynt, fel comisiynwyr, ddatblygu mwy o arbenigedd caffael, ac y byddent yn edrych at NOMS/y Weinyddiaeth Cyfiawnder am gefnogaeth.

Roedd yn well gan ymatebwyr yr undebau llafur ddull gweithredu lleol o ran comisiynu a chyd-gomisiynu. Mynegwyd pryderon penodol ganddynt ynghylch contractau cenedlaethol mawr, a allai, er yn cynnig darbodion maint a rhai manteision gweithredol, eithrio mudiadau llai a allai wynebu trafferthion o ran canfod digon o arian i gystadlu'n effeithiol am gontractau o'r fath. Roedd cydnabyddiaeth, er hynny, y byddai contractio ar raddfa rhy fychan yn peryglu cysondeb safonau gwasanaeth ac o bosibl yn drwsogl i'w monitro'n effeithiol.

Roedd cefnogaeth gyffredinol gan **VCS** i gomisiynu ddigwydd ar y lefel fwyaf lleol bosibl, ac eithrio lle yr oedd angen safoni cenedlaethol neu gyflawni darbodion maint (yr enghraifft a roddwyd fynychaf oedd Monitro Electronig). Thema gadarn oedd na ddylai lleoliaeth ddod ar draul ansawdd. Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch ardaloedd lle nad yw darpariaeth leol yn bodoli o bosibl, yn enwedig ardaloedd gwledig. I gynnwys VCS, awgrymwyd y dylai Ymddiriedolaethau ddatganoli cyfrannau o gyllidebau i ariannu neu gomisiynu cynlluniau llai ar y cyd.

Yn gyffredinol, teimlai'r VCS y dylai darparwyr posibl orfod datgan yn bendant sut y byddent yn gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer troseddwyr sy'n fenywod. Dadleuodd rhai dros glustnodi cyllid ar gyfer gwasanaethau i fenywod. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at adroddiad Corston a theimlent fod ei gasgliadau'n parhau'n ddilys ac yn bwysig eu hystyried. Dadleuodd yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai'n gryf y byddai cael strategaeth ganolog

ar gyfer menywod yn helpu i amddiffyn troseddwy'r sy'n fenywod. Argymhellwyd hefyd y cynigion yn Adroddiad Tasglu CLINKS ar gomisiynu ar gyfer troseddwy'r sy'n fenywod.

Roedd barn gymysg gan y **sector preifat** ar y cydbwysedd rhwng comisiynu lleol a chenedlaethol er y mynegwyd dewis cyffredinol y byddai'n well cael llai o Ymddiriedolaethau o ystyried y darbodion maint a gwerth contract cysylltiedig a fyddai'n fwy deniadol i'r farchnad. Gwnaed y pwynt yn aml nad yw'r pwysigrwydd o ymateb i angen lleol yn golygu bod angen comisiynu'n lleol - mae'n bosibl cwrdd ag anghenion lleol penodol wrth gomisiynu ar raddfa fwy. Awgrymodd sawl mudiad, gyda llai o Ymddiriedolaethau y gellid cynnal cysylltiadau lleol drwy Unedau Darparu Lleol. Awgrymwyd y gallai NOMS gadw comisiynu gwasanaethau'n genedlaethol i ddechrau cyn symud i fodel mwy lleol a allai gynnwys awdurdodau lleol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, os mai dyma'r ffordd ddewisol ymlaen.

Codwyd pryderon ynghylch gwahanu swyddogaethau comisiynu a darparu yn ystod cyfnod o ddiwygio sylweddol ar y system yn ehangach. Teimlid y gallai hyn effeithio'n negyddol ar ansawdd cystadleuaeth a chomisiynu a'r canlyniadau fyddai'n cael eu cyflwyno, ac y byddai'n golygu oedi o ran cystadlaethau. Dadl gyffredin oedd nad oedd y cynigion gyfystyr â gwahaniad llawn rhwng prynwr a darparwr gan y byddai'r Ymddiriedolaethau a oedd yn gyfrifol am gomisiynu hefyd yn gyfrifol am ddarparu cyngor yn y llysoedd, rheoli troseddwy'r risg uwch a phenderfyniadau allweddol o ran diddordeb cyhoeddus. Os gwneir y gwahaniad, pwysleisiwyd bod yn rhaid i hyn fod yn wirioneddol er mwyn creu hyder yn y farchnad. Awgrymwyd mewn man arall, yn hytrach na chanolbwyntio ar wahaniad llawn rhwng prynwr a darparwr, y dylid cyfeirio sylw at ddatblygu cyfrwng priodol i ddarparwyr.

Er mwyn datblygu gallu comisiynu mewn Ymddiriedolaethau argymhellwyd y dylid datblygu fframwaith comisiynu cydlynol, i helpu comisiynwyr i gydbwysu'r angen i gyflawni gwerth da am arian gyda darparu gwasanaethau effeithiol, ymatebol. Teimlai ymatebwyr hefyd y gellid cynnwys canlyniadau penodol ar gyfer troseddwy'r sy'n fenywod yn y broses gomisiynu a'r manylebau fel modd o sicrhau y cwrddir â'u hanghenion.

Un thema eang o ymatebion **dedfrydwyr** oedd nad oeddynt yn gwrthwynebu diwygio ond eisiau sicrhau bod pa drefniadau bynnag a oedd yn eu lle'n cael eu gwerthuso'n effeithiol a phriodol.

O ran rheoli troseddwy'r, y prif fater i ddedfrydwyr oedd, beth bynnag fo'r trefniadau, bod yn rhaid iddynt gadw hyder mewn swyddogion prawf proffesiynol lleol i sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n cwrdd ag amcanion ac yr ymdrinnir yn gadarn ac yn gyflym â thorri amodau. Codwyd pryderon ynghylch y cynnig i wahanu rheolaeth troseddwy'r risg uwch ac is, o ystyried natur amrywiol risg. Cwestiynwyd diffiniad "penderfyniadau allweddol o ran diddordeb cyhoeddus". Dadleuodd Fforwm Cenedlaethol Cadeiryddion Meinciau na ddylai rheolaeth troseddwy'r ar drwydded fod yn destun cystadleuaeth, gan y gallant fod ag anghenion cymhleth yn aml, a chan y byddai Ymddiriedolaethau'n gwneud penderfyniadau o ran galw'n ôl, y dylent hefyd fod yn rheoli'r troseddwy'r hyn.

Y prif bryder a fynegwyd gan yr ynadaeth oedd ynghylch cysondeb darparu gwasanaeth ac osgoi "loteri cod post". Roedd safbwyntiau gwahanol ynghylch ar ba lefel y dylid comisiynu gwasanaethau. Dadleuodd rhai y byddai strwythur cenedlaethol yn well i sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau, tra yr oedd eraill yn cefnogi dull gweithredu mwy lleol, megis drwy "ganolfannau" comisiynu, gydag ond rhai gwasanaethau megis Monitro Electronig yn cael eu comisiynu'n genedlaethol er mwyn cysondeb a'r pris gorau. Codwyd pryderon ynghylch darparwyr yn "dewis a dethol" neu'n "hufennu a pharcio", gan arwain at wasanaeth anghyson. Byddai angen craffu ar ddarparwyr i sicrhau eu bod yn cyflwyno'r gwasanaeth angenrheidiol.

Roedd peth cefnogaeth i wahaniad llawn rhwng prynwyr a darparwyr i osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau er yr argymhellwyd y dylid cael goruchwyliaeth annibynnol ar gyfer y broses hon. Nid oedd un fainc yn cefnogi gwahaniad llawn oherwydd pryderon y byddai'n rhaid i Ymddiriedolaethau ymuno â'r sector preifat i gystadlu am wasanaethau a allai gyfyngu ar effeithlonrwydd a bod yn gostus i greu'r gallu angenrheidiol.

Dadleuwyd y byddai angen darparu cefnogaeth ariannol, gwybodaeth a hyfforddiant i Ymddiriedolaethau ddatblygu gallu comisiynu, gyda'r gefnogaeth honno o bosibl yn cael ei darparu gan Lywodraeth ganol.

Prif bryder yr **Heddlu** oedd bod trefniadau comisiynu'n galluogi gweithio a chyd-gomisiynu effeithiol gyda'r heddlu a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, unwaith y sefydlwyd hwy. Roedd **awdurdodau lleol** yn gyffredinol yn awyddus i wasanaethau rheoli troseddwyd gael eu comisiynu ar y cyd gyda gwasanaethau lleol eraill. Roedd enghreifftiau'n cynnwys gwasanaethau tai, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl ac roeddynt yn awyddus i benderfyniadau o ran comisiynu gwasanaethau lleol gael eu cadw'n lleol. Roedd cydnabyddiaeth y gallai fod yn well cyflwyno rhai gwasanaethau safonol cost-uchel yn ganolog.

Roedd awdurdodau heddlu o blaid gwahaniad rhwng prynwyr a darparwyr i sicrhau "cylch comisiynu moesegol" a oedd yn dyrannu adnoddau orau i gwrdd â blaenoriaethau. O ran gwahanu gwasanaethau prynwyr a darparwyr roedd rhai ymatebwyr o awdurdodau lleol yn argymhell rhaniad llwyr gyda chomisiynu, asesu a chyfeirio'n cael eu cadw gan yr ymddiriedolaeth prawf ac endid masnachol newydd yn cael ei greu ar gyfer darparu gwasanaeth. Nododd eraill bod angen i'r rhaniad fod yn glir ond roeddynt yn teimlo y gellid cyflwyno muriau moesegol o fewn sefydliadau presennol.

Awgrymodd cyrff yr heddlu y gellid cynyddu gallu o fewn Ymddiriedolaethau Prawf yn lleol drwy fanteisio ar arbenigedd awdurdodau lleol.

Darpariaeth fwy amrywiol a safonau proffesiynol (cwestiynau 9–12)

Roedd **Ymddiriedolaethau Prawf** yn awyddus i'r Fframwaith Cymwysterau Prawf (PQF) gael ei gadw ond yn bryderus y gallai rhannu'r gwasanaeth gyflwyno risg oherwydd gallai fod yn amhosibl darparu'r llwybr gyrfa cyflawn o fewn unrhyw un sefydliad a gallai hyn arwain at ddiffyg swyddogion prawf gyda golwg gyfannol ar y gwasanaeth. Ategodd nifer o Ymddiriedolaethau'r

cynnig gan y Gymdeithas Prawf a Chymdeithas y Prif Swyddogion Prawf i sefydlu fframwaith proffesiynol i gynnwys y PQF a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, ochr yn ochr â chofrestr o staff cymwysedig a chorff arweiniol i oruchwylio'r fframwaith a'r gofrestr. Argymhellwyd y dylai contractau sicrhau bod pob darparwr yn cydymffurfio â'r gofynion hyn. Roedd undebau'n bryderus efallai na fyddai darparwyr y sector preifat mor barod i gynnig yr un lefel o hyfforddiant a datblygiad ac y gallai hyn olygu gwasanaeth llai medrus. Codwyd pryderon hefyd y gallai llai o gyfleoedd fod ar gael i staff.

Teimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr y byddai angen help sylweddol ar y **VCS** i ganiatáu iddynt gystadlu â'r sector preifat. Codwyd pwysigrwydd llywodraethu effeithiol ar y gadwyn gyflenwi i sicrhau cynnwys y VCS gan sawl ymatebwr. Dadleuodd rhai y dylai'r VCS fod yn ychwanegiad i'r sector cyhoeddus ac nid cymryd ei le a bod y VCS yn dioddef toriadau na fu eu tebyg ac nad oeddynt mewn sefyllfa i ymgymryd â gwaith o'r math hwn.

Ynglŷn â thalu yn ôl canlyniadau, roedd gogwydd cryf yn erbyn mesurau cofnodi deul a chred y dylid cydnabod amllder, niwed a chynnydd dros dro tuag at atal aildroseddu (megis cael swydd, tŷ ayb). Dadleuodd ymatebwyr y byddai gwobrwyo camau llai yn caniatáu i VCS llai gystadlu gan y byddai'n cynorthwyo llif arian ac enillion ar eu buddsoddiad. Gwnaeth nifer sylweddol o ymatebwyr sylw nad oedd talu yn ôl canlyniadau (PBR) wedi'i brofi eto, a bod risg y byddai contractau'n cael eu rheoli'n ormodol a allai leihau arloesi. Roedd cred hefyd na fyddai mudiadau a oedd yn rhan o contractau talu yn ôl canlyniadau yn rhannu arfer da pe byddai gwybodaeth yn fasnachol sensitif.

Tynnwyd sylw at y model prif is-ddarparwr, gyda chyfeiriadau aml at y Rhaglen Waith, fel ffordd o ddarparu cyfle clir ar gyfer cyrff y sector gwirfoddol a chymunedol, yn ogystal â mentrau bychain a chanolig eu maint (SME) i ddod yn rhan o gadwynau cyflenwi lleol heb eu rhoi'n agored i risg ariannol ormodol. Tynnodd un mudiad sylw at y Cynllun Dinasyddion Cenedlaethol fel model lle yr oedd comisiynydd yn cysylltu â chyflogwyr mawr gyda golwg ar iddynt ddod yn "integreiddwyr" i reoli cadwyn gyflenwi o SME i gyflawni'r gwasanaeth craidd. Awgrymwyd y gallai cystadlaethau ei gwneud yn ofynnol i ynygwyr nodi dewis neu ofyniad i VCS ac SME fod â rhan yn y gwaith cyflwyno. Argymhellwyd mabwysiadu safon Merlin ar gyfer cadwyni cyflenwi.

Cofnodwyd yn eang yr amser a'r gefnogaeth oedd eu hangen i ddatblygu mentrau cydymddibynnol. Codwyd yr angen am newid ffordd o feddwl yn y sector cyhoeddus, a'r ffaith bod ymrwymiad gan staff a'r undebau'n hanfodol. Tynnwyd sylw'n aml at TUPE a materion pensiwn fel rhwystrau posibl o ran cydymddibyniaeth. Roedd teimlad y dylai'r sector cyhoeddus allu cystadlu ond cydnabyddiaeth y gallent golli cynigion. Tynnodd mudiadau a oedd yn cefnogi datblygu mentrau cymdeithasol sylw at bwysigrwydd bod y broses gystadlu'n darparu hyblygrwydd i ganiatáu i fentrau cymdeithasol gymryd rhan, gan gynnwys fel prif contractwyr.

Roedd cefnogaeth gan y **sector preifat** i fanteision posibl dull talu yn ôl canlyniadau er y codwyd nifer o faterion o ran gweithrediad. Roedd teimlad y byddai angen mwy o rannu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i leihau aildroseddu er mwyn adeiladu hyder darparwyr i fuddsoddi dan drefniadau

PbR. Argymhellwyd yn gryf y dylai'r Llywodraeth ddilyn mesurau gwahanol i'r un deul - cynigiwyd amlder a difrifoldeb fel dewisiadau gwahanol, ac anogwyd taliadau canlyniadau dros dro hefyd. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut y byddid yn rhoi sylw i amrywiaeth yn y risg o aildroseddu ar gyfer gwahanol grwpiau o droseddwyd. Nodwyd y bylchau rhwng taliadau a throthwyon llwyddiant uchel fel rhwystrau i fudiadau llai ymgysylltu â thalu yn ôl canlyniadau. Byddai'r rhyddid i reoli cyflwyno gwasanaeth a mabwysiadu dull gweithredu "blwch du" yn sylfaenol i fodolau PbR. Byddai darparwyr angen sbardunau a rheolaeth ddigonol i yrru gwir newid (fel yr awgrymiad uchod y byddai comisiynu'r holl faes prawf ac o bosibl rhai gwasanaethau carchar yn dewis gwell ar gyfer y farchnad).

Roedd cefnogaeth glir dros ddatblygu set o sgiliau wedi'u safoni a'u hachredu ar gyfer staff darparu prawf. Awgrymwyd y dylai'r set hon o sgiliau fod â ffocws eang o ran y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol a bod yn ehangach na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd ar gyfer swyddogion prawf. Ar y llaw arall, teimlai un ymatebydd bod rolau presennol yn galw am ormod o gymwysterau a allai rwystru cyflawni arbedion. Byddai eglurder o ran rolau a gofynion staff dan strwythurau newydd yn hanfodol. Argymhellodd un ymatebydd sefydlu cofrestr broffesiynol o ymarferwyr cymwys a chymeradwy, tra galwodd un arall am reoleiddio cenedlaethol.

Codwyd pryder gan **ddedfrydwyr** y gallai talu yn ôl canlyniadau arwain at wrthdaro buddiannau rhwng cwrdd â'r canlyniad i gael taliad â sicrhau cydymffurfio cadarn a gorfodi gorchmynion llys.

Roedd ymatebwyr yn ystyried Swyddogion Prawf fel gweithwyr proffesiynol a oedd angen mecanwaith ar gyfer datblygu eu sgiliau'n barhaus fel unrhyw grŵp proffesiynol arall. Roedd peth pryder y gallai natur broffesiynol y rôl gael ei lleihau os na fyddai modd i swyddogion prawf ddatblygu'r set gyfannol o sgiliau o ganlyniad i ddarparwyr fod yn canolbwyntio ar faes mwy cyfyngedig o ddarparu.

Awgrymwyd gan yr **Heddlu** y gallai comisiynwyr gynnal rhestr o ddarparwyr cymeradwy yn y sector gwirfoddol a chymunedol a allai gael eu cynnwys mewn contractau yn y cam cynigion. Codwyd pryderon ymysg awdurdodau lleol a phartneriaethau ynghylch trafferthion mudiadau llai a gwirfoddol o ran cynhyrchu cynigion a chystadlu gyda mudiadau mwy yn y sector preifat.

Awgrymodd yr Heddlu, fel y gwnaeth mathau eraill o ymatebwyr y dylid cefnogi'r mesur amlder hefyd fel dull o fesur ar gyfer talu yn ôl canlyniadau. Codwyd pryderon ynghylch cost rhedeg a monitro cynlluniau PBR a'r potensial ar gyfer "dewis a dethol".

Dadleuodd awdurdodau heddluoedd y byddai cynnal yr arolygiaeth prawf statudol yn bwysig i sicrhau datblygiad parhaus y proffesiwn prawf. Cododd rhai **awdurdodau lleol** fater safonau proffesiynol ac er bod cefnogaeth ar gyfer lefelau gofynnol diffiniedig o gymwysterau a sefydlu corff cofrestru proffesiynol, codwyd pryderon ynghylch y goblygiadau o ran cost ac adnoddau y gallai hyn ei gael os byddai gofyn i ddarparwyr gwirfoddol a chymunedol gadw at y rhain.

Cryfhau cyflwyno'n lleol (cwestiynau 13–15)

Teimlai llawer o ymatebwyr y gallai'r **Ymddiriedolaethau Prawf** mwy wrthdaro â dull cyflwyno mwy lleol. Codwyd pryderon ynghylch sut y gallai Ymddiriedolaethau o'r fath gynnal cysylltiadau â phartneriaid lleol allweddol gan gynnwys gwasanaethau iechyd ac ailsefydlu eraill ar gyfer troseddwyr. Mewn rhai ymatebion, codwyd pwysigrwydd dulliau Rheoli Troseddwyr yn Integredig. Roedd pwysigrwydd cyd-gomisiynu lleol yn thema gyffredin.

Dangoswyd amheuaeth sylweddol am Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gan y **VCS**. Teimlent nad oeddent wedi profi'u hunain eto ac y gallai fod ganddynt ogwydd yn erbyn dedfrydau cymunedol yn seiliedig ar ganfyddiad y cyhoedd. Teimlai llawer nad oedd gan awdurdodau lleol na Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu'r profiad a'r hyfforddiant angenrheidiol i ymgymryd â chomisiynu gwasanaethau prawf.

Tynnodd **y sector preifat** sylw at Unedau Darparu Lleol fel elfen ragorol ar gyfer darparu'n lleol. Fel y nodwyd uchod, roedd cred gyffredin nad oedd angen i gomisiynu fod yn "lleol" er mwyn ymateb i anghenion lleol. Roedd awdurdodau lleol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cael eu hystyried yn gyfryngau addas o bosibl ar gyfer comisiynu. Fodd bynnag, rhybuddiwyd yn erbyn symud at y model hwn yn rhy gynnar a bod angen ennill profiad o ran comisiynu yn gyntaf. Roedd peth pryder hefyd ynghylch y posibilrwydd i ysgogwyr gwleidyddol ddylanwadu ar benderfyniad a gymerwyd gan awdurdodau lleol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu fel comisiynwyr lleol.

Tynnodd **dedfrydwyr** sylw at bwysigrwydd y bartneriaeth gyda'r gwasanaeth prawf. Mae cyswllt ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd yn galluogi rhannu syniadau blaengar i helpu troseddwyr a sialensiau sy'n codi o ddedfrydu. Teimlwyd bod cyfyngiadau ar adnoddau eisoes yn lleihau'r cyswllt rhwng ynadon â'r gwasanaeth prawf ac y gallai newid pellach waethygu hyn.

O ran gwahanol fodelau ar gyfer goruchwylio gwasanaethau prawf, mynegwyd pryderon ynghylch y grym fyddai'n cael ei roi i un unigolyn a natur wleidyddol bosibl penodiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Y pwynt allweddol a fynegwyd gan gyfrif **Heddlu** oedd sicrhau cydweddu effeithiol rhwng strwythurau'r heddlu a phrawf. Roedd barn gyffredin y byddai'n fwy dewisol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn hytrach nac awdurdodau lleol i gymryd cyfrifoldeb dros wasanaethau prawf, gan fod ganddynt gylch gorchwyl i leihau troseddu, mandad democrataidd, strwythurau yn cyd-ffinio'n fras ag Ymddiriedolaethau Prawf, a'u bod mewn sefyllfa dda i gydlynu dull cydlynus o gyflwyno gwasanaethau cyfiawnder troseddol yn lleol.

Yn gyffredinol nid oedd **awdurdodau lleol** o blaid llai o Ymddiriedolaethau mwy gan y gallai hynny achosi trafferthion o ran gweithio ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eraill yn y dyfodol. Roedd consensws cyffredinol y gallai comisiynu gyda neu drwy Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu fod yn bosibilrwydd gydag amser, ond codwyd pryderon am y sbardunau gwleidyddol y gallai Comisiynwyr yr Heddlu a

Throseddu fod yn gweithio'n unol â hwy a allai dynnu oddi ar anghenion troseddwr.

Effeithiau o ran Cydraddoldeb (Cwestiynau 16–17)

Roedd pwysigrwydd sicrhau bod pob darparwr yn glynu at ddyletswyddau cyffredinol y sector cyhoeddus dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn thema gyffredin a godwyd. Roedd sicrhau na fyddai talu yn ôl canlyniadau yn golygu bod troseddwr mwy problematig neu fregus yn derbyn triniaeth annigonol oherwydd eu bod yn anoddach eu hailsefydlu hefyd yn rhywbeth a nodwyd yn rheolaidd. Nodwyd bod 20% o droseddwr ag anawsterau dysgu ac y dylid rhoi ystyriaeth i hyn. Mynegodd llawer o gyrff y sector gwirfoddol a chymunedol bryder bod angen i staff fyddai'n trosglwyddo o'r sector cyhoeddus i'r sector preifat gael eu hamddiffyn yn llawn rhag unrhyw effeithiau niweidiol, yn enwedig o ran pensiynau.

Dadleuodd rhai os byddai'r newidiadau hyn yn golygu bod y pellter daearyddol y byddai angen i droseddwr ei deithio'n cynyddu – yna byddai hyn yn effeithio'n anghymesur ar fenywod (oherwydd ymrwymadau teuluol) a'r rhai ag anableddau i deithio a gwneud yr apwyntiadau angenrheidiol. Dadleuodd eraill y dylai pawb a oedd â nodwedd warchoddedig gael eu crybwyll yn arbennig gan ddarparwr posibl. Mae menywod lesbiaidd a deurywiol yn aml yn ymddangos ymysg troseddwr sy'n fenywod; dylid cydnabod ac ymchwilio i hyn os bydd angen.

Gwnaed y pwynt bod gan gwmnïau'r sector preifat, yn ystadegol, lai o bobl anabl (ar gyfartaledd) yn gweithio iddynt na'r sector cyhoeddus. Teimlid y dylai unrhyw ddarparwr posibl gael eu harchwilio'n drwyadl a'u dal yn gyfrifol am eu 'cymwysterau' o ran cydraddoldeb.

Awgrymwyd y dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder fynnu'n benodol bod Ymddiriedolaethau'n dangos sut y maent yn darparu ar gyfer anghenion troseddwr BAME (Du a Lleiafrifoedd Ethnig) a grwpiau eraill â nodweddion gwarchoddedig yn eu hardaloedd.

© Hawlfraint y Goron 2013
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau o'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i 020 3334 6584 neu effectiveprobationservices@justice.gsi.gov.uk